Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Fro

**Ysgol Gynradd Llangyndeyrn**
**Llangyndeyrn**
**Llanelli**
**SA17 5BW**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Y Fro

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Y Fro |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | |
| Person â gofal | Ffion Evans |
| Nifer y lleoedd | 6 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 4 yn 3 oed |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener: 9.00 – 3.00 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae’r gwasanaeth hwn yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ y Gymraeg. Mae’n darparu gwasanaeth sy’n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad yn dilyn Cofrestriad |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2015 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/09/2023 |
| Lleolir y Cylch Meithrin ar safle Ysgol Y Fro, Llangyndeyrn. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Parhau i fireinio’r ddarpariaeth er mwyn datblygu annibynniaeth y plant ymhellach

A2 Ffurfioli prosesau rheoli perfformiad yr ymarferwyr

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan bron bob un o’r plant lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn gyson. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud yn hyderus o amgylch yr ardaloedd dysgu y tu fewn ac yn yr ardal tu allan. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dewis adnoddau o fewn yr ardaloedd chwarae yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn symud o fwrdd i fwrdd yn mwynhau marcio gyda phensiliau, dewis llyfrau, a chwarae gyda cheir. Maent yn gwybod bod y staff yn ystyried eu dymuniadau a’u teimladau yn llawn. Mae’r plant yn hyderus yn dewis ble i eistedd wrth y bwrdd ar gyfer cyfnodau byrbryd ac yn hapus i ofyn i fynd i’r tŷ bach.

Mae’r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn setlo’n gyflym. Maent yn gwenu ac yn ymdopi’n dda iawn wrth wahanu o’u rhieni a’u gofalwyr. Mae’r plant yn teimlo’n ddiogel yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn mwynhau treulio amser yn edrych ar lyfrau, ac maent yn awyddus i rannu newyddion. Mae’r plant yn ymgartrefu’n gyflym iawn ac yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol y lleoliad gan wybod beth sy’n dod nesaf. Maent yn cymdeithasu, sgwrsio, chwerthin a chanu wrth chwarae. Mae’r plant yn datblygu perthnasoedd agos a chynnes gyda’r ymarferwyr ac yn rhyngweithio’n dda ag ymwelwyr. Maent yn frwdfrydig i siarad am eu teuluoedd. Er enghraifft, fel rhan o thema’r mis, mae’r plant yn mwynhau gweld lluniau o’u haelodau teulu, sydd yn arwain at drafodaethau pellach am berthnasoedd, atgofion a phrofiadau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cymdeithasu a rhyngweithio da ac maent yn rhannu yn ddiffwdan wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn cydweithio wrth

greu ardal fferm gan aros eu tro a rhannu yn amyneddgar. Maent hefyd yn mwynhau dod at ei gilydd i gyfri, canu a darllen ar y cyd ac ateb cwestiynau am y tywydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn egnïol a brwdfrydig. Maent yn mwynhau gweithgareddau digymell ac yn llawn cyffro pan maent yn arbrofi. Er enghraifft, wrth roi bath i ddoliau, maent yn mwynhau'r gwaith paratoi o gario dŵr i'r twba, llenwi a gwagio cwpanau ac enwi rhannau'r corff. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol, llythrennedd, rhifedd a'u creadigrwydd yn effeithiol. Maent yn mwynhau cyffwrdd, rhifo, pwyso ac astudio casgliad o fes wedi iddynt eu casglu o'r ardal awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da ac yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu. Maent yn dangos balchder wrth gyflawni tasgau fel taenu menyn ar fara ac yn dangos mwynhad wrth dderbyn canmoliaeth a llwyddo. Mae'r plant yn mwynhau'r cyfrifoldeb a'u rôl fel 'Helpwr y Dydd' wrth wisgo bathodyn a chefnogi eraill gyda'u byrbryd, diod a chinio.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o anghenion unigol plant. Maent yn dilyn gweithdrefnau'n fanwl ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau ac yn deall gweithdrefnau meddyginiaeth yn glir.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o weithdrefnau hylendid ac maent yn eu gweithredu'n effeithiol. Er enghraifft, maent yn diheintio arwynebau yn ofalus cyn byrbrydau, ac yn gwisgo menig a ffedog wrth newid cewynnau gan gofnodi gwybodaeth yn gywir. Maent yn ymwybodol o anghenion iechyd y plant ac mae ganddynt weithdrefnau clir i gefnogi'r anghenion hynny. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o brosesau diogelu plant. Maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryder. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar lefel uwch. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cymarebau staffio yn addas ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau derbyn a gadael yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn paratoi byrbrydau iachus wrth sicrhau bod y plant yn bwyta ac yn yfed yn iach.

Mae gan ymarferwyr berthynas agos â'r plant ac maent yn eu trin yn garedig. Maent yn rhyngweithio'n naturiol ac yn cefnogi'r plant i barchu ei gilydd. Mae ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl da ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol gan wrando, cydweithio ac egluro mewn modd clir a gofalgar. Maent yn dangos diddordeb wrth wrando, canmol ac ymestyn dealltwriaeth y plant drwy ryngweithio mewn modd agos

a phersonol. Er enghraifft, cyn mynd allan i'r awyr agored, mae ymarferwyr yn sgwrsio am ddillad ac esgidiau addas ar gyfer y tywydd gwlyb.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o anghenion a dymuniadau unigol y plant. Maent yn darparu naws ac amgylchedd sy'n meithrin gofal ac yn dangos parch ar bob adeg. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cefnogi'r plant i feddwl am eu hanghenion fel sychu trwyn neu wisgo ffedog. Mae'r ymarferwyr yn annog annibyniaeth y plant mewn modd caredig a sensitif ac yn cynnig anogaeth i adeiladu ar eu medrau unigol i feithrin eu hunan-barch. Mae ymarferwyr yn ymestyn profiadau dysgu'r plant yn ddigymell. Er enghraifft, wrth chwarae gydag adnoddau'r fferm, mae ymarferwyr yn sgwrsio â'r plant ac yn eu hannog i feddwl a chynnig eu syniadau eu hunain.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o ddatblygiad plant a gofynion y cwricwlwm. Maent yn cydweithio'n dda i gynllunio a darparu ystod eang o brofiadau dysgu llwyddiannus sy'n ymateb i, ac yn ennyn diddordeb, pob plentyn. Maent yn darparu profiadau dysgu sy'n datblygu'r plant yn archwilwyr hyderus a gofalgar yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfleoedd i blant dyfu planhigion a llysiau, i chwilio a gofalu am drychfilod ac ystyried a pharchu eraill.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn cymell y plant yn effeithiol i greu marciau gydag amrywiaeth o gyfryngau a'u hannog i rifo a didoli blociau yn ôl lliw a maint. Maent yn canolbwyntio'n dda ar wella medrau llafar Cymraeg y plant trwy ailadrodd geirfa, patrymau iaith a chanu caneuon bywiog. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cynnar TGCh y plant yn datblygu'n briodol yn unol â'u hoed. Mae'r ymarferwyr yn ymestyn dealltwriaeth y plant trwy eu holi'n gelfydd sydd yn effeithio'n gadarn ar wella'u medrau rhesymu.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn annog y plant i fentro ac arbrofi wrth symud mewn amrywiaeth o ffurfiau. Maent yn cefnogi'r plant i gyfansoddi rhythmau gwahanol wrth daro drymiau, tambwrîn a chlychau yn yr ardal allanol. Mae dulliau addysgu cadarn yr ymarferwyr yn arwain y plant i gydweithredu'n bwrpasol â'i gilydd. Maent yn darparu gweithgareddau difyr sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu medrau yn dda. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i greu tyrrau sefydlog o wahanol fathau o flociau.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn hyrwyddo amrywiaeth yn briodol trwy ddathlu traddodiadau a gwyliau gwahanol yn ystod y flwyddyn. Maent yn gwneud defnydd da o'u hardal leol trwy ymweld â'r parc er mwyn arsylwi ar anifeiliaid, ac i godi ymwybyddiaeth o ailgylchu a gofalu am y cynefin trwy gasglu sbwriel.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau arsylwi priodol i asesu datblygiad y plant gan addasu'r ddarpariaeth yn effeithiol yn sgil y wybodaeth hon. Maent yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant. Maent yn ymyrryd yn amserol ac yn effeithiol i atgyfnerthu'r dysgu. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r ymarferwyr yn gor-arwain y dysgu sydd yn dueddol o lesteirio cyfleoedd i'r plant gymhwyso eu medrau annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth am gyflawniadau eu plant yn glir i rieni a gofalwyr. Maent yn darparu adroddiadau cynnydd, yn cyfathrebu dros gyfryngau cymdeithasol, ac yn rhoi adborth llafar wrth ddrws y lleoliad.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ar gyfer y plant. Nid oes modd i ymwelwyr gael mynediad i'r lleoliad, na'r ardal allanol heb ganiatâd yr ymarferwyr. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi'n gyson. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu gweithredu ac maent yn cadw cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol. Cedwir cofnodion plant ac ymarferwyr yn gyfrinachol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad a'r offer i ddiogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd, er enghraifft yr offer tân a'r blwch cymorth cyntaf. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol ar gyfer y lleoliad ynghyd â'r ardaloedd tu allan, ac maent yn cael eu hadolygu'n gywrain. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod o hysbysebion a phosteri pwrpasol o gwmpas y lleoliad, sy'n cefnogi eu gweithdrefnau clir, fel siart lif ynglŷn â threfniadau diogelu plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd cartrefol sy'n cynnig ethos croesawgar, cyfeillgar a chynnes. Mae'r amgylchedd dan do yn cynnig lle priodol ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu'n ddyddiol. Mae arweinwyr yn darparu toiledau addas ynghyd â chyfleusterau pwrpasol i olchi a sychu dwylo, sydd yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo eu hannibyniaeth. Maent wedi creu amgylchedd diogel yn yr ardal tu allan, sydd yn cynnig heriau a chyfleoedd pwrpasol i blant gymryd risg a datblygu chwilfrydedd. Mae'r ardal hon yn cynnig cysgod o dan pergola, ardal lle mae porfa ac iard ddiogel sy'n cynnig profiadau chwarae corfforol, dychmygol a chreadigol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch i blant a'u cefnogi i fentro.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau amrywiol a phwrpasol, ar lefelau isel, ym mhob ardal tu fewn a thu allan. O ganlyniad, mae gan blant fynediad i deganau, adnoddau a chyfarpar eang, sydd yn eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau unigol, fel adnoddau pren, crefft, a'r byd bach. Mae'r ardal tu allan yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol, creadigol ac arbrofol yn effeithiol. Mae'r teganau a'r adnoddau yn addas ac o safon dda, er enghraifft beiciau a strwythur pibau ddŵr, sydd yn galluogi plant i arbrofi. Mae'r ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda trwy gynnig cyfleoedd i blant chwarae ag adnoddau amlddiwylliannol. Er enghraifft, mae ystod o ddoliau o wahanol ddiwylliannau yn yr ardal chwarae rôl. Yn ogystal, mae plant yn cael cyfle i ddysgu am ystod o anghenion drwy arbrofi ag adnoddau fel cadeiriau olwyn. Mae

arweinwyr yn paratoi arddangosfeydd pwrpasol, er enghraifft baneri gwledydd y byd, y corff, lles a llais y plant a'r gymuned.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinwyr yn effeithiol wrth lywio eu gweledigaeth a gosod disgwyliadau uchel. Maent yn gwneud hyn trwy gefnogi a herio pawb i sicrhau gwasanaeth o safon uchel o ran lles, gofal a dysgu o fewn awyrgylch hapus, ysgogol a theuluol. Mae'r arweinwyr yn parchu a gwerthfawrogi gwaith yr ymarferwyr. Maent yn ystyried eu barn, yn eu cefnogi'n effeithiol ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio'n gadarnhaol ar fodloni anghenion y plant.

Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn rhoi gwybodaeth ddigonol i rieni / gofalwyr wneud y dewis cywir am ofal eu plant. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad. Mae'r unigolyn cyfrifol yn y broses o gael ei gymeradwyo fel RI gan AGC.

Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar waith i nodi cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn wedi arwain at flaenoriaethau pwrpasol a thargedau priodol ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, maent yn adnabod yr angen i barhau i ddatblygu dealltwriaeth a gwybodaeth yr ymarferwr o arsylwi ac asesu cynnydd plant. Fodd bynnag, nid yw'r arferion monitro ar gyfer goruchwylio a gwerthuso perfformiad yr ymarferwyr wedi eu sefydlu'n llawn eto.

Mae arweinwyr yn neilltuo a defnyddio'r gyllideb a'r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau yn ddoeth. Er enghraifft, maent yn galluogi'r ymarferwyr i elwa o hyfforddiant bwriadus, sy'n gwella'u harferion cynllunio ac addysgu. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau defnyddiol, fel canopi, offerynnau taro, ac ardal fwd sydd yn hyrwyddo profiadau cyffrous a gwerthfawr i'r plant.

Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaeth buddiol gan gynnwys yr awdurdod lleol, asiantaethau allanol a'r rhieni a gofalwyr. Mae gan y lleoliad bartneriaeth lwyddiannus â'r ysgol ac maent yn rhannu'r safle, adnoddau ac arbenigrwydd yn ddeallus. O ganlyniad, mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg yn ddidrafferth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/11/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 21 Tachwedd 2023